**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Cynghorydd Geraint Thomas
Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Ellis Cooper
Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

30 Ebrill 2024

Annwyl Geraint a Ellis,

Rwy'n ysgrifennu fel Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith y Senedd ynghylch ymchwiliad byr rydym yn ei gynnal mewn perthynas â chloddio glo brig, gan gynnwys y safle yn Ffos-y-Frân.

Mae ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor wedi cysylltu â swyddogion yn eich sefydliad i'w gwahodd i un o gyfarfodydd y Pwyllgor. Yn anffodus, gwrthodwyd ein gwahoddiad.

O'n trafodaethau hyd yn hyn, mae'n amlwg bod safbwynt y Cyngor yn allweddol i'n dealltwriaeth o'r materion sy'n ymwneud â'r safle yn Ffos-y-Frân a sut y gellir eu datrys. Hoffwn ofyn yn ddiffuant i chi ailystyried ein gwahoddiad a chytuno i gynrychiolwyr y Cyngor, naill ai cynrychiolwyr etholedig, swyddogion, neu'r ddau, ddod i gyfarfod y Pwyllgor i drafod y materion hyn ymhellach.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 22 Mai, a hynny rhwng 9.30am a 12pm. Os nad yw'r cyfarfod hwn yn gyfleus i chi, cysylltwch ag ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor, ac fe wnawn bopeth yn ein gallu i drefnu dyddiad arall.

O ystyried bod y mater hwn o bwys sylweddol i'r cyhoedd, mae'r Pwyllgor yn benderfynol bod y Cyngor yn cael cyfle i roi ei safbwynt ac esbonio'r datblygiadau diweddaraf. Mae gan y Pwyllgor bŵer, o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i'w gwneud yn ofynnol i bobl fod yn bresennol yn ystod ei drafodion er mwyn rhoi tystiolaeth. Byddai'n well gennym wrth gwrs, pe baech yn ymateb cadarnhaol i'r gwahoddiad hwn.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 8 Mai.

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.